



Disability Wales
Anabledd Cymru

Adroddiad Blynyddol 2019-2020

Cynnwys

Nodau ac Amcanion Strategol	3
Adolygiad Blynyddol y Cadeirydd	8
Adroddiad Blynyddol y Trysorydd	12
Adroddiad y Prif Weithredwr	18
Aelodau Cyfredol	24
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	26
Bwrdd Cyfarwyddwyr	30

Lluniau trwy garedigrwydd Natasha Hirst

Anabledd Cymru

Tŷ Brydon
Bloc B
Parc Busnes Caerffili
Heol Van
Caerffili
CF83 3ED

Rhif Elusen: 517391
Rhif y Cwmni: 1998621

Derbyniodd Anabledd Cymru
arian gan Lywodraeth Cymru



029 2088 7325



029 2088 8702



info@disabilitywales.org



www.disabilitywales.org



twitter.com/DisabilityWales



facebook.com/DisabilityWales



Nodau ac Amcanion Strategol

Gweledigaeth

Disability Wales/Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol mudiadau pobl anabl yng Nghymru sy'n ymdrechu i gyflawni hawliau a chydraddoldeb i bob person anabl.

Cenhadaeth

Ein rôl graidd yw cyfleu barn a blaenoriaethau aelodau i'r llywodraeth gyda'r nod o lywio a dylanwadu ar bolisiau.

Nod Strategol 1:

Dylanwadu ar lunwyr polisiau a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel, trwy weithredu fel eiriolwr effeithiol dros farn, blaenoriaethau a buddiannau ein haelodau

- **Amcan Strategol 1:**

Cyfleu buddiannau pobl anabl yng Nghymru i Lywodraeth Cymru a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau

- **Amcan Strategol 2:**

I sicrhau hawliau, cydraddoldeb a byw'n annibynnol er mwyn gwella lles pobl anabl

Nod Strategol 2:

Datblygu a darparu cefnogaeth i waith mudiadau sy'n cael eu rheoli gan bobl anabl

- **Amcan Strategol 1:**

Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i sefydliadau sy'n aelodau

- **Amcan Strategol 2:**

Dylunio a darparu rhaglenni datblygu a hyfforddi i grwpiau sy'n aelodau

Nod Strategol 3:

*Arwain a datblygu
mudiad effeithiol,
cynaliadwy a sicrhau
rheolaeth gref a chadarn*

- **Amcan Strategol 1:**
Arwain a rheoli sefydliad effeithiol ac effeithlon er budd pobl anabl
- **Amcan Strategol 2:**
Sicrhau bod y sefydliad yn cael ei rheoli mewn nodd cryf a chadarn
- **Amcan Strategol 3:**
Creu, datblygu a darparu ystod o wasanaethau cynhyrchu incwm sydd o fudd i bobl anabl



Gwerthoedd

- Model Anabledd Cymdeithasol
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Cymdeithas Gynhwysol
- Hunan benderfyniad
- Enghraifft o arfer gorau
- Ymrwymo i gyflawni ansawdd

12 o ddigwyddiadau

371 o gyfranogwyr


4 o grwpiau ffocws

23 o gyfranogwyr



4 o arolygon

326 o ymatebion



**Diwrnod Rhyngwladol
Pobl Anabl 2019:**

5 fideo

wedi'u gwyllo

7053

o weithiau

Negeseuon
trydar wedi'u
gweld

165K

o weithiau



1 Wobr

Buddsoddwyr mewn Pobl



Pobl Anabl a Brexit: Beth Nesaf?

3 o ddigwyddiadau
wedi'u ffrydio'n fyw

wedi'u gwyllo

981 o weithiau

3

o Sefydliadau Pobl
Anabl sy'n Aelod
Llawn Newydd (DPO)



1000

o ddilynwyr
Twitter newydd
Cyfanswm o 13.2K



884

o ddilynwyr
Facebook newydd
Cyfanswm o 4132



8 fyfyrwyr ar
interniaeth



Adolygiad Blynyddol y Cadeirydd

2019-2020



Mae Anabledd Cymru yn bodoli i hyrwyddo hawliau a chydraddoldeb holl bobl anabl Cymru. Fel sefydliad aelodaeth sy'n cael ei redeg gan bobl anabl, rydym yn rhoi llais ac arweiniad cryf i ddylanwadu ar bolisi ar y materion sydd o bwys i'n haelodau, a'n haelod Sefydliadau Pobl Anabl.

Mae eleni wedi bod yn anodd, unwaith eto, ond rwy'n falch o ddweud bod pethau wedi bod yn llawer mwy cadarnhaol. Rydym wedi gweithio'n rhagweithiol i newid cyfeiriad a bod yn fwy tebyg i fusnes o ran ein rhagolygon. Nid yw hwn yn llwybr hawdd i sefydliad trydydd sector y mae ei brif ffocws ar gefnogi ei aelodau, boed y rhain yn unigolion neu'n Sefydliadau Pobl Anabl, a dylanwadu ar bolisi mewn meysydd sy'n effeithio fwyaf ar ein haelodau: nid yw'r naill na'r llall yn draddodiadol wedi eistedd yn gyfforddus o fewn model busnes o weithio.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn wahanol! Fe wnaethom ddechrau gyda'n Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi tanysgrifennu diffyg yn ein cyllid, ac yn rhagweld gorfod gwneud hynny eto yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2020.

Daethom i ben gyda chyllideb gytbwys, fel y nodir yn y cyfrifon, ond yna roedd yr ychydig staff sydd gennym yn gweithio gartref, ac yr oedd ein bodolaeth i gyd yn ôl pob golwg mewn cyfnod clo.

Beth ddigwyddodd yn y canol? Mae dechrau'r flwyddyn gofnodi ym mis Ebrill 2019 yn ymddangos mor bell yn ôl, mae cymaint wedi digwydd yn y canol! Newidiadau staffio a Bwrdd, datblygiadau ariannu, a dull gwahanol o weithio.

Yn AC, rydym wedi dweud ers amser maith, fod angen i ni ddysgu ffyrdd newydd o weithio. Gyda strategaethau cyllidebu tynnach fyth, roeddem wedi gwneud cymaint ag y gallem i dorri'n ôl. Gweithio ar sail prosiectau fu'r ffordd ymlaen. Fe wnaethom gyflogi ymgynghorwyr i'n helpu i edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o gynhyrchu incwm. Rydym wedi cael llai o brosiectau tymor hwy, ac eithrio 18 mis olaf y rhaglen DRILL pum mlynedd, ond cynnydd yn nifer y darnau bach, mwy unigryw o waith,

i gyd yn fuddiol yn eu ffyrdd eu hunain, ond mae angen yr un dwysedd o fewnbwn o hyd, er budd ariannol llai i AC.

Fe wnaethom barhau i weithio gyda'n haelodau a chynnal nifer o weithdai ledled Cymru. Rydym wedi symleiddio nifer y digwyddiadau i gyflawni ehangder ehangach o nodau, ond mae nifer dda o bobl wedi'u mynychu ac wedi eu mwynhau.

Rydym wedi parhau i gael sylw eang yn y cyfryngau darlledu, ac yn aml rydym wedi bod yn sefydliad 'o ddewis' ar gyfer sylwadau yn y cyfryngau pan fydd materion wedi

codi mewn perthynas â phryderon pobl anabl, penderfyniadau polisi'r llywodraeth, neu ddiwygio lles er enghraifft. Mae staff ac aelodau'r Bwrdd wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau. Un maes newid mawr fu'r cynnydd sylweddol yn y cyfryngau cymdeithasol, mewn ffordd o gysylltu ag aelodau, ond hefyd fel 'offeryn gwybodaeth' wrth ledaenu'r gair am ein gwaith o ddydd i ddydd. Cawsom gefnogaeth sylweddol yn hyn o beth gan Natasha Hirst, cyn-aelod o'r Bwrdd, ar gontract tymor byr, a gan fyfyrwyr blaenorol a fu'n gweithio gyda ni ar leoliad.



Yn ystod y flwyddyn, ymunodd Joe Powell, o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, â Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol diwethaf. Rydym yn ei groesawu ac yn diolch iddo am ei fewnbwn i'r Bwrdd.


Dim ond tîm staff bach oedd gennym ni yn ystod yr amser hwn ond cawsom nifer o leoliadau myfyrwyr llwyddiannus. Hefyd, fe wnaeth Ruth Nortey, ein Swyddog Polisi ac Ymchwil, ein gadael i ddilyn astudiaethau academiaidd pellach, er mai swydd gan AC oedd hon, felly mae wedi cynnal cysylltiadau â'r sefydliad am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Rhaid i mi ddiolch yn fawr i'r Bwrdd a'r tîm staff am eu holl waith caled a'u hymrwymiad yn ystod y flwyddyn, ac yn enwedig i Rhian Davies, ein Prif Weithredwr am ei chefnogaeth barhaus.

I gloi, hoffwn gydnabod ein bod wedi gorffen y flwyddyn mewn amgylchiadau gwahanol iawn. Yn gyntaf, roedd pandemig Covid-19 eisoes yn cydio, ac fel Bwrdd a thîm staff roeddem wedi penderfynu i staff weithio dros dro o'u cartref, cyn y 'cyfnod clo' swyddogol ar 23 Mawrth 2020. Ar nodyn llawer mwy cadarnhaol, gorffennwyd y flwyddyn ariannol ar sail ariannol llawer mwy diogel, ar ôl derbyn arian ychwanegol cyn diwedd y flwyddyn, ac roedd hyn yn golygu nad oedd rhaid i'r Bwrdd mewn gwirionedd danysgrifennu gwariant o'i gronfeydd wrth gefn, ond o'r diwedd mewn sefyllfa o adrodd am gyllideb gytbwys. Gadewch i ni i gyd edrych ymlaen at 2020 sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol.

Wendy Ashton
Cadeirydd





Adroddiad Blynyddol y Trysorydd

Ebrill 2019 – Mawrth 2020



Dechreuodd 2019-2020 gyda chyllideb ddigyfnewid o ran ein Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant o £150k gan Lywodraeth Cymru i gyflawni amcanion craidd y cytunwyd arnynt. Byddai hyn hyd yn oed yn fwy anodd, gan fod cyllideb ddigyfnewid yn doriad mewn termau real, gan fod costau a threuliau'n cynyddu'r barhaol, yn bennaf o fwy na chyfradd chwyddiant. Fodd bynnag, tua diwedd 2019, cawsom arian ychwanegol i gefnogi rhoi Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Anabledd: yr Hawl i Fyw'n Annibynnol ar waith.

Mae'r Rhaglen DRILL yn mynd rhagddi tan ddiwedd mis Awst 2020 a dyrannwyd pocedi bach o gyllid DRILL ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi gwaith meithrin gallu yng Nghymru. Mae'r rhaglen wedi parhau i fod yn llwyddiant mawr gyda'r bwriad o gynnal cynhadledd derfynol i dynnu sylw at y canlyniadau yn y flwyddyn ariannol newydd. Mae pum prosiect ymchwil wedi'u cynnal yng Nghymru, a bydd y data a'r canlyniadau yn cefnogi ein nodau craidd yn y pen draw, a'r gallu i ddangos tystiolaeth gryfach mewn ceisiadau am gyllid ar gyfer Anabledd Cymru yn y dyfodol.

Fe wnaethom sicrhau nifer sylweddol o brosiectau a chomisiynau tymor byr a roddodd hwb i'n hincwm, er yn y pen draw, ein nod yw canolbwyntio ar brosiectau mwy o ran maint, mwy cynaliadwy a llai gweinyddol fel y mae amser yn caniatáu. Cafodd rhai o'r prosiectau llai a gynlluniwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol newydd oherwydd effaith pandemig Covid-19.

Er bod yr ystod o brosiectau a chomisiynau wedi helpu i godi ein gwelededd ar draws y sectorau gwirfoddol a statudol, y gefnogaeth fwyaf o bell ffordd i dynnu sylw at ein gwaith, a chodi proffil Anabledd Cymru, fu faint o sylw yn y cyfryngau yr ydym wedi'i ddenu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac yn fwy diweddar, yn ystod y cyfnod clo. Mae'n ymddangos bod newyddiadurwyr radio a theledu yn ein defnyddio fel y sefydliad 'o ddewis' mewn materion anabledd, ac rydym wedi cael sylw

helaeth ar draws pob llwyfan drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg. Diolch yn fawr i Miranda Evans, ein Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni, am barhau i arwain hyn.



Oherwydd Coronafeirws, ni gynhaliwyd ein cynllun ar gyfer y diwrnod Adolygu Strategol, a oedd yn cynnwys y Bwrdd a'r staff, yn y flwyddyn ariannol dan sylw, ond fe'i gohiriwyd tan fis Mehefin 2020 ac fe'i cynhaliwyd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr adolygiad yn awr yn amserol o ran y cylch ariannu tair blynedd a ohiriwyd.

Yn wahanol i'r arfer, gallaf gyflwyno 'cyllideb gytbwys' – neu 'cyllideb wedi'i mantoli' sydd i'w groesawu'n fawr! Mae hyn heb orfod defnyddio ein cronfeydd wrth gefn, i dalu am y diffyg yr oeddem wedi'i ragweld, ac mae'n diolch ar y cyfan, i'r arian ychwanegol a gawsom gan Lywodraeth Cymru.

Rwyf wedi siarad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf am yr angen i Anabledd Cymru gadw cronfeydd wrth gefn, a meddu ar bolisi Cronfeydd Wrth Gefn i wneud y canlynol:

- Bodloni ein rhwymedigaethau cytundebol pe bai'n rhaid i'r sefydliad gau.
- Talu costau annisgwyl.
- Disodli'r offer wrth iddo ddangos ôl traul.
- Darparu cyfalaf gweithio pan fydd cyllid yn cael ei dalu mewn ôl-ddyledion a fyddai'n rhoi AC mewn sefyllfa lle gallai wneud cais am gyllid.
- Ariannu prosiectau a gweithgareddau penodol y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ac nas diwallwyd gan ffynonellau incwm eraill.

Hefyd, o bryd i'w gilydd mae cyfyngiadau penodol ar gyllid sy'n golygu bod yn rhaid ei ddal mewn cyfrif cronfeydd wrth gefn cyfyngedig yn ôl y gyfraith nes iddo gael ei wario yn unol â'r cytundeb ariannu.





Rydym yn dal mwy o gronfeydd wrth gefn ddiwedd mis Mawrth 2020, oherwydd roeddem yn paratoi i danysgrifennu diffyg rhagamcanol, ond gan i ni gael hwb hwyr i gyllid, golygai hyn nad oedd angen i ni weithredu hyn.

Mae ein harchwilwyr yn falch o'n statws ariannu presennol, o ystyried yr hyn a ragamcanwyd,


ac maen nhw'n hapus â'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r Bwrdd a'r staff yn gweithio iddynt i sicrhau cyllid amgen. Maent hefyd yn cydnabod faint o waith mae AC wedi'i gyflawni gyda chyn lleied o staff. Mae'r archwilwyr yn cydnabod ein bod yn ymdrechu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol, a bod gennym gynlluniau ar waith fel sefydliad cyfrifol ar gyfer

strategaeth ymadael hyfyw, pe bai'r wasgfa ar gyllid yn mynd yn dynnach fyth.

Mae AC mewn sefyllfa gryfach o lawer, gyda rhagolygon llawer mwy cadarnhaol i'r sefydliad. Fe wnaethom lwyddo i ddatblygu cynlluniau i recriwtio staff ychwanegol, ond gohiriwyd y cyfweiliadau a oedd i'w cynnal ym mis Mawrth oherwydd y cyfnod clo.

Fel bob amser, hoffwn ddiolch unwaith eto i aelodau ein Bwrdd a'n staff am eu hymrwymiad a'u hymdrechion drwy gyfnod heriol a diolch iddynt i gyd am ein harwain at gyllideb gytbwys. Diolch yn arbennig i Paula Reed, ein Rheolwr Cyllid ac Adnoddau, am ei gwaith diflino wrth baratoi'r cyfrifon a'r gwaith papur, mae hyn yn gwneud fy rôl gymaint yn haws. Hoffwn ddiolch hefyd i Baldwins, ein Harchwilwyr, am eu cyngor a'u cefnogaeth barhaus.

Mandi Glover
Trysorydd



Adroddiad y Prif Weithredwr



Ni all Anabledd Cymru byth fodoli mewn gwactod, mae digwyddiadau allanol yn effeithio nid yn unig ar ein sefydliad ond ar ein haelodau hefyd. Mae deng mlynedd o galedi wedi difrodi incwm a hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gwaethygu'r sefyllfa beryglus y mae llawer o bobl anabl yn ei chael eu hunain ynddi.

Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn roedd Brexit yn dominyddu tirwedd wleidyddol a'r cyfryngau gyda misoedd o helbul yn y Senedd a thrafodaethau toredig gyda'r UE a arweiniodd at Etholiad Cyffredinol Nadolig, gan baratoi'r ffordd i'r Cytundeb Ymadael. Cododd yr ansicrwydd ynghylch Brexit lawer o gwestiynau i aelodau ynghylch sut y byddai'n effeithio ar agweddau hanfodol ar eu bywydau gan gynnwys mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol, nwyddau a gwasanaethau a thrafnidiaeth a symudedd.

Er mwyn helpu i ateb y pryderon hyn, mewn partneriaeth â Fforwm Cymdeithas Sifil Brexit, cynhaliodd AC weithdai i aelodau ledled Cymru a oedd yn cynnwys siaradwyr arbenigol. Torrwyd ar draws y cynnydd o ran cynhyrchu'r adnoddau dilynol gan Bandemig y Coronafeirws a achosodd i'r DU fynd i gyfnod clo cenedlaethol.

Mae effaith Covid-19 ar gymdeithas yn gyffredinol a phobl anabl yn arbennig wedi bod yn ddwys ac yn bellgyrhaeddol. Gan sefydlu ein hunain fel sefydliad rhithwir dros nos, fe wnaethom barhau i gyflawni ein rhaglen waith, er ein bod yn canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng. Ein nod oedd rhoi gwybod i'r aelodau am y datblygiadau diweddaraf a'u harfogi cyn belled ag y bo modd i ymateb i'r argyfwng. Fe wnaethom ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ganllawiau'r llywodraeth oedd yn esblygu, trefnu digwyddiadau ymgynghori ar-lein a chodi materion a phryderon aelodau gyda Gweinidogion ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru. At hynny, gwnaethom gynnwys aelodau mewn straeon cyfryngau prif ffrwd, gan dynnu sylw at effaith ddifrifol Covid-19 ar bobl anabl.

Digwyddodd y cyfnod clo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac erbyn hynny roeddem wedi cyflawni ein targedau rhaglenni gwaith gan adeiladu ar gyflawniadau blaenorol. Fe wnaethom gyflwyno 12 digwyddiad i 371 o gyfranogwyr ledled Cymru: yn ogystal â Brexit, roedd y pynciau'n cynnwys Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), y Model Cymdeithasol o Anabledd a 'Hawlio ein Hawliau', thema ein Cynhadledd Flynyddol a fynychwyd gan dros 100 o aelodau a chefnogwyr. Fe wnaethom gynyddu ein cyrhaeddiad a'n dylanwad ar-lein yn sylweddol drwy arolygon, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a ffrydio byw. Yn arwyddocaol, o ystyried yr hyn a oedd o'n blaenau, canfu ein harolwg aelodaeth blynyddol a gwblhawyd gan 122 o aelodau fod y mwyafrif llethol yn rhyngweithio â ni'n ddigidol yn hytrach na thrwy ddigwyddiadau ac yn annog mwy o gyfleoedd i ymgysylltu ar-lein.

Ymunodd bron i 1500 o ddilynwyr newydd â'n llwyfannau Twitter a Facebook, gan ymestyn ein cyrhaeddiad yn y cyfryngau cymdeithasol i tua 17.5K o sefydliadau ac unigolion. Edrychodd dros 7k ar ein pum fideo yn cynnwys aelodau ledled Cymru, a gomisiynwyd i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl. Gwelodd bron i 1k ein digwyddiadau Brexit oherwydd y ffrydio byw.



Roeddem yn falch iawn o groesawu tri Sefydliad Pobl Anabl i fod yn aelodau llawn sydd rhyngddynt yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned anabledd: Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru ac Anabledd yng Nghymru ac Affrica. Fe wnaeth AWPf enwebu eu Prif Weithredwr Joe Powell i'n Bwrdd Cyfarwyddwyr a cafodd ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Rôl graidd AC yw cynrychioli barn aelodau gyda'r nod o lywio a dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth. Un o'r cyflawniadau allweddol oedd ein cyfraniad gweithredol at gyhoeddi'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd: yr Hawl i Fyw'n Annibynnol. Mae'r Fframwaith yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau trawsbynciol



understand the rights that we have and that they must be respected.
Having talked about the social model and the UNCRRDP I think it is only right that we pay tribute at this moment to somebody who has been a real giant a real great of the disabled people's movement.

right that we pay tribute at this moment to somebody who has been a real giant a real great of the disabled people's movement.
1945 - 2019



Disability Rights
Institute of Social Sciences



i fyw'n annibynnol, ynghyd â'i ffocws o'r newydd ar gyflawni yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

Mae'r Fframwaith yn cwmpasu mesurau i fynd i'r afael â rhwystrau mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys cyflogaeth a chyfranogiad dinesig yn ogystal â thai, cynhwysiant digidol a mynediad at wasanaethau'r stryd fawr. Fe wnaeth natur gynhwysfawr y Fframwaith gynyddu rôl AC yn sylweddol o ran cydlynu cyfranogiad a mewnbwn aelodau wrth ei weithredu. Daeth yn amlwg ein bod angen capasiti ychwanegol

angenrheidiol i gyflawni'r rôl hon ac yn dilyn achos llwyddiannus i gael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom benodi tri aelod o staff newydd. Ymunodd pob un â AC ar ôl y cyfnod clo ac maen nhw wedi gweithio o bell ac yn effeithiol iawn ers eu penodi: Megan John, Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant Anabledd, Megan Thomas, Swyddog Polisi ac Ymchwil ac Elin Williams, Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu.

Cyn ei phenodi, ymgwymerodd Elin â rhith-interniaeth gyda ni fel un o'r 8 myfyriwr o wahanol Brifysgolion Cymru y gwnaethom eu croesawu drwy gynlluniau Santander a Go

Wales yn y drefn honno. Mae AC wedi blaenoriaethu lleoliadau i fyfyrwyr anabl fel cyfle profiad gwaith gwerthfawr. Rydym wedi elwa'n fawr o'u sgiliau a'u brwdfrydedd ac mae'r berthynas a grëwyd wedi arwain at gyfleoedd gwirfoddoli pellach, contractau llawrydd yn ogystal â swydd.



Fel Sefydliad Pobl Anabl rydym wedi ymrwymo i arferion cyflogaeth da. Roeddem yn falch iawn o gadw'r Wobr Buddsoddwyr mewn Pobl, yr ydyn ni'n ei dal ers 2005. Dywedodd yr Asesydd mai ein cryfder allweddol yw 'gweithredu yn unol â'n gwerthoedd' gyda sgoriau'n sylweddol uwch na meincnod yr IIP.

Parhaodd y Rhaglen DRILL yng Nghymru o nerth i nerth gyda chyflawniadau allweddol gan gynnwys: trafodaeth bord gron rhwng Jane Hutt AC (y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip) a Bwrdd y Rhaglen DRILL yn ei gyfarfod yng Nghaerdydd; lansio'r adroddiad ymchwil 'Gweithio gyda Chyd-Ymchwilwyr: Datblygu Strategaethau'r Dyfodol' yng nghynhadledd flynyddol Anabledd Cymru; a gweithdy diwrnod ar gyfer ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ar gyd-gynhyrchu mewn ymchwil anabledd, a drefnwyd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd.

Drwy gydol y flwyddyn mae ein tîm bach o Gyfarwyddwyr a staff wedi parhau i ymdrechu i sicrhau hawliau a chydaddoldeb pobl anabl. Diolch o galon i'n Rheolwr Cyllid ac Adnoddau sy'n gadael, Paula Reed, am ei 22 mlynedd o wasanaeth teyrngar i AC, yn ogystal ag i'r Rheolwr Polisi Miranda Evans a Swyddog Rhaglen DRILL Dr Jody Mellor am eu hymrwymiad diflino. Mae llawer yn ddyledus i'n Bwrdd gwirfoddol, dan arweiniad y Cadeirydd Wendy Ashton am eu doethineb a'u hymroddiad wrth gyfarwyddo'r sefydliad mewn cyfnod mor afreolus.

Rhian Davies

Prif Weithredwr



Aelodau Cyfredol

Ebrill 2020

Mae ymaelodi ag Anabledd Cymru yn agored i bob mudiad ac unigolyn sy'n cefnogi nodau ac amcanion y mudiad. Rydym yn ymdrechu i ddatblygu a chefnogi gwaith mudiadau a arweinir gan bobl anabl; eirioli barn, blaenoriaethau a buddiannau ein haelodau; dylanwadu ar y rhai sy'n llunio polisïau a gwneud penderfyniadau ar bob lefel; a datblygu a darparu gwasanaethau sydd o fudd i bobl anabl.

372

Aelodau Unigol



25

Aelodau Llawn (Mudiadau Pobl Anabl)



31

Grwpiau Anabledd Eraill



21


Statudol, Proffesiynol a Thrydydd Sector



09

Eiledol





Datganiad o Weithgareddau Ariannol

31 Mawrth 2020

Incwm a Gwariant

Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

	Cyllid Anghyfyngedig £	Cyllid Cyfyngedig £	Cyfanswm £
Incwm			
Rhoddion a chymynroddion	247,054	-	247,054
Gweithgareddau Elusennol	5,882	142,349	148,231
Buddsoddiadau	1,282	-	1,282
Cyfanswm yr Incwm	254,218	142,349	396,567
Gwariant			
Gweithgareddau Elusennol	219,264	132,635	351,899
Gwariant Net			
Symudiad Net mewn cronfeydd	34,954	9,714	44,668
Balans y gronfa ar 01.04.19	304,526	28,612	333,138
Balans y gronfa ar 31.03.20	339,480	38,326	377,806

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus.

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol hefyd yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cyfrif incwm a gwariant o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mantolen

Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

	2020
Asedau Cyfredol	
Dyledwyr	4,118
Arian yn y banc a buddsoddiadau wrth gefn	406,210
	410,328
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(32,522)
Asedau Cyfredol Net	377,806
Cronfeydd Incwm	
Cronfeydd cyfyngedig	38,326
Cronfeydd anghyfyngedig	
Cronfeydd dynodedig	225,130
Cronfeydd anghyfyngedig cyffredinol	114,350
	339,480
	377,806



Bwrdd Cyfarwyddwyr

Cadeirydd

Wendy Ashton

Is-gadeiryddion

Willow Holloway
Delwyn Evans

Trysorydd

Mandi Glover

Cyfarwyddwyr

Simon Green
Kelvin Jones
Ben Morris
Trevor Palmer
Joe Powell (elected November 2019)
Mary Powell
Kelvin Jones
Ben Morris



Anabledd Cymru

Tŷ Brydon
Bloc B
Parc Busnes Caerffili
Heol Van
Caerffili
CF83 3ED

 029 2088 7325

 029 2088 8702

 info@disabilitywales.org

 www.disabilitywales.org

